

Crynodeb Gweithredol: Ansawdd Aer yn ein hardal

Ansawdd Aer yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Prif ffynhonnell llygredd aer yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) yw traffig ffyrdd. Mae ocsidau nitrogen ($\text{NO}_x = \text{NA} + \text{NO}_2$) yn cael eu ffurfio wrth losgi tanwydd ffosil. Amcangyfrifir yn 2022 bod ar gyfartaledd 65 y cant o'r crynodiadau NO_x ar ochr y ffordd yn tarddu fel allyriadau NO_x o drafnidiaeth ffyrdd^{Error! Reference source not found.} (Defra, 2024). Felly, mae CBSMT yn pryderu am grynodiadau NO_2 ar ochr y ffordd. Mae rhwydwaith monitro ansawdd aer goddefol yn cael ei weithredu ledled yr ardal.

Profodd y crynodiadau NO_2 ostyngiad o 24% ar gyfartaledd ledled yr ardal yn 2020, oherwydd effaith COVID-19 a'r mesur cloi cysylltiedig, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2019). Ar ôl 2020, roedd y crynodiadau wedi cynyddu ychydig ond maent yn parhau i fod yn is na'r crynodiadau cyn y pandemig. Roedd pob safle yn arsylwi crynodiadau mwy na 10% yn is na'r amcan ansawdd aer cymedrig blynyddol hyd at 2020. Ar un safle, a leolir yn Ardal Monitro Ansawdd Aer y Cyngor (AQMA), roedd y crynodiad a arsylwyd ($38.2 \mu\text{g}/\text{m}^3$) yn 2019 o fewn 10% o'r amcan ansawdd aer cymedrig blynyddol ($36 \mu\text{g}/\text{m}^3$). Mae'r safle hon o fewn AQMA y cyngor.

Ers 2017 mae AQMA wedi bod ar waith ar hyd Ffordd Twynyrodyn. Datganwyd bod yr AQMA yn rhagori ar yr amcan ansawdd aer cymedrig blynyddol ($40 \mu\text{g}/\text{m}^3$). Roedd y crynodiadau a welwyd yn gysylltiedig â thraffig, yn enwedig traffig i fyny'r allt ar hyd Ffordd Twynyrodyn. Mae'r AQMA yn ymestyn o ben gorllewinol Ffordd Twynyrodyn i 147 Gilfach Cynon. Mae rhagor o wybodaeth a map o'r AQMA ar gael ar [dudalen we AQMA Ffordd Twynyrodyn](#). Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth y Cyngor, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru y cynllun gweithredu i wrthdroi'r llif traffig ar hyd Stryd Fawr Pontmorlais a Stryd yr Eglwys fel cam cychwynnol i fynd i'r afael â chrynodiadau NO_2 o fewn AQMA.

Ar 28 Mai 2019 gwrthdrowyd llif traffig ar hyd Stryd Fawr Pontmorlais a Stryd yr Eglwys. Roedd hyn yn darparu llwybrau amgen i ffwrdd o Tesco ac ardal Canol y Dref ac eithrio

Ffordd Twynyrodyn. Mae'n ymddangos bod cronni traffig wedi symud i ffwrdd o'r AQMA gyda llai o giwiau yn datblygu ar Ffordd Twynyrodyn.

Ers 2020, arhosodd yr holl safleoedd monitro o fewn yr AQMA yn is na 10% o'r amcan ansawdd aer cymedrig blynyddol. O 2021 mae'r crynodiadau o fewn yr AQMA yn gostwng. Os yw'r duedd yn parhau a bod crynodiadau yn 2024 yn parhau i fod yn is na 10% o'r amcan ansawdd aer cymedrig blynyddol, byddai'r AQMA wedi bod yn cydymffurfio am 5 mlynedd a bydd mewn sefyllfa i gael ei ddirymu.

Mae CBSMT hefyd yn ystyried effaith datblygiadau newydd ar ansawdd aer a lle bo angen, defnyddir amodau cynllunio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cefnogi teithio llesol a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus i leihau dibyniaeth ar geir.

Camau gweithredu i wella ansawdd aer

O ran AQMA Twynyrodyn, yn 2018 cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos. Ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar 3 opsiwn i leihau'r defnydd o draffig ar Ffordd Twynyrodyn. Mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (94%) ffafrio yr opsiwn o wrthdroi llif traffig ar hyd Stryd Fawr Pontmorlais a Stryd yr Eglwys. Cymeradwyodd y Cyngor gynllun gweithredu i'r perwyl hwn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i gymeradwyodd wedyn.

Ym mis Tachwedd 2018 cyhoeddodd yr Adrannau Priffyrdd a Pheirianeg Orchmynion Rheoleiddio Traffig. Ar 28 Mai 2019 gwrthdrowyd llif traffig yn unol â'r cynllun gweithredu cymeradwy. Mae cyfrifiadau traffig ar gael sy'n meintioi arsylwadau a wnaed gan Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd bod llai o draffig yn AQMA Ffordd Twynyrodyn. Dangosodd yr arolwg traffig a gynhaliwyd cyn ac ar ôl gwrthdroi'r llif ar hyd Stryd Fawr Pontmorlais, ostyngiad o 428 o gerbydau ar gyfartaledd yn nifer y traffig sy'n teithio ar hyd Ffordd Twynyrodyn ar ddydd Gwener pan oedd cyfaint y traffig ar ei uchaf. Gwelwyd rhywfaint o gronni traffig o amgylch Avenue De Clichy a Stryd Fawr Pontmorlais yn ystod yr oriau brig sydd hefyd wedi'i dystiolaeth gan yr arolwg traffig, gyda chynnydd cyfartalog yn ystod yr wythnos o 677 o symudiadau cerbydau ar hyd Avenue De Clichy. Nid yw hyn yn debygol o beri risg i iechyd y cyhoedd gan fod eiddo preswyl wedi'u gosod yn ôl o'r ffordd ac nid oes unrhyw ardaloedd ar ei hyd lle mae pobl yn debygol o dreulio mwy nag awr. Ar ochr

orllewinol Avenue De Clichy mae Afon Taf, felly nid oes ceunentydd stryd posibl. Mae'r arsylwadau cynnar yn awgrymu bod y gwrthdroi traffig wedi gwneud gwelliannau mewn ansawdd aer o fewn yr AQMA ac mae hyn wedi parhau i fod yn wir hyd yn hyn.

Mae CBSMT yn gweithio gyda gwahanol ysgolion yn yr ardal i greu ymwybyddiaeth am lygredd aer.

Blaenoriaethau a Heriau Lleol

Y flaenoriaeth ar gyfer 2019 oedd monitro effeithiolrwydd y cynllun gweithredu a weithredwyd. I'r perwyl hwnnw, gosodwyd tiwbiau trylediad ychwanegol ar hyd y llwybr gwrthdroi traffig a'r strydoedd cyfagos. Ers ei weithredu, nid yw'n ymddangos bod y gwrthdroi traffig wedi cynyddu'n sylweddol grynodiadau o NO₂ ar hyd Stryd Fawr Pontmorlais neu unrhyw lwybr dargyfeirio arall.

Roedd crynodiadau NO₂ ar gyfer 2020 yn dilyn gweithredu'r cyfnod clo cenedlaethol oherwydd y pandemig coronafirws yn sylweddol is oherwydd y gostyngiad cysylltiedig mewn symudiadau cerbydau. Fel y cyfryw, nid oedd mwyafrif y data ar gyfer 2020 yn gynrychiolaeth wirioneddol o grynodiadau ar gyfer yr ardal yn nhermau amgylchiadau nodweddiadol. Felly, y flaenoriaeth ar gyfer 2020 oedd cynnal y rhwydwaith monitro ac ohirio'r bwriad o ddirymu'r AQMA yn 2021. Byddai monitro parhaus a dangos bod crynodiadau yn parhau i fod yn fwy na 10% yn is na'r amcan ansawdd aer cymedrig blynyddol yn caniatáu i'r AQMA gael ei ddirymu yn 2025.

Os bydd crynodiadau yn cynyddu o fewn 10% neu'n fwy na'r amcan ansawdd aer cymedrig blynyddol, bydd gwaith ychwanegol yn cael ei ystyried mewn cynlluniau gweithredu wedi'u diweddarau.

Mae CBSMT yn parhau i astudio'r crynodiadau mesuredig ar draws y rhwydwaith monitro presennol ochr yn ochr â phatrymau traffig. Os nodir ardaloedd traffig trwm newydd a allai effeithio ar ansawdd aer, gellir ychwanegu lleoliadau monitro newydd i'r rhwydwaith. Roedd hyn yn wir yn 2022 pan ychwanegwyd dau leoliad monitro newydd.

Sut i Gymryd Rhan

Mae rhagor o wybodaeth am lygredd aer, gan gynnwys mynediad at adroddiadau ansawdd aer blaenorol, ar gael gan www.merthyr.gov.uk. Gellir mynd i'r afael â chwestiynau penodol drwy e-bostio PublicHealth@merthyr.gov.uk neu drwy ffonio 01685 725000.

Os ydych angen copi o'r Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer llawn, e-bostiwch publichealth@merthyr.gov.uk